



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod y Bwrdd 7 Gorffennaf 2020 drwy Zoom

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Kirsty Payne (KP) (Ysgrifenyddiaeth)
Claire Williams (CW) (gadawodd y cyfarfod am 13:05)
Mike James (MJ)
John Graystone (JG)
Martin Price (MP)
Davina Payne (DP)
Rosemary Jones OBE (RJ) (gadawodd y cyfarfod am 13:00)
Paul Marshall (PM)
Michaela Renkes (MR) (gadawodd y cyfarfod am 13:00)

1. Croeso, cadarnhad o'r cofnodion a'r camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan SD. Ni chofnodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Roedd y ddwy eitem sydd angen sylw ac sydd ar y log camau gweithredu ar yr agenda i'w trafod yn ystod y cyfarfod hwn. Mae'r holl gamau gweithredu eraill wedi'u cwblhau neu wedi'u gohirio oherwydd COVID-19.

2. Gwybodaeth Ddiweddaraf am Adnewyddu'r Bwrdd

Mynegodd SD ei diolch i MR am ei chymorth gyda'r broses o adnewyddu'r bwrdd, fel y nodwyd gyntaf yn ystod cyfarfod y bwrdd ym mis Ionawr. Cafodd SD a MR gyfarfod â chynrychiolydd o Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru'r wythnos ddiwethaf a oedd yn gallu egluro'r manylion. Estynnodd SD wahoddiad i MR egluro'r sefyllfa i'r bwrdd.

Atgoffodd MR y bwrdd y sefydlwyd yr Academi Arweinyddiaeth ym mis Mai 2018 a phenodwyd holl aelodau'r bwrdd am gyfnod o dair blynedd oherwydd natur y cyllid. Bydd pob penodiad yn dirwyn i ben ar yr un dyddiad ac ni ddylid rhagdybio y bydd yr unigolion yn cael eu hailbenodi. Y Gweinidog sy'n gyfrifol am y broses, Llywodraeth Cymru a'r Uned Cyrff Cyhoeddus sy'n rheoli'r broses a Llywodraeth y DU sy'n ei llywodraethu ac yn craffu arni, felly mae'n hanfodol bod y broses o adnewyddu yn cael ei gwneud yn gywir. Os nad oes camau'n cael eu cymryd bydd tymor pob aelod o'r bwrdd yn dirwyn i ben ym mis Ebrill a bydd angen penodi bwrdd newydd cyfan.

Yn yr un modd, os yw holl aelodau cyfredol y bwrdd yn cael eu hailbenodi am dymor ychwanegol, bydd yr Academi Arweinyddiaeth yn yr un sefyllfa mewn tair blynedd, gan na ellir ailbenodi unrhyw aelod o'r bwrdd am drydydd tymor. Felly, mae angen gweithredu rhaglen dreigl o adnewyddu.

Mae cynnig wedi'i ddrafftio sy'n argymhell bod Cadeirydd y bwrdd yn cael cynnig tymor newydd, a allai fod yn hirach na'r tymor gwreiddiol o dair blynedd. Cynigir hefyd bod yr Is-gadeirydd yn cael cynnig tymor newydd ynghyd â Chadeiryddion y ddau is-bwyllgor. O ran y pedwar aelod sy'n weddill, cynigir y bydd contractau dau ohonynt yn cael eu hymestyn hyd 2022 a bydd tymor y ddau arall yn dod i ben yn 2021 yn ôl eu contract cyfredol. Lle'r bwrdd yw penderfynu pa aelodau fydd yn parhau tan 2022 a pha rai fydd yn cael eu newid yn 2021. **Mae angen gwneud y penderfyniad hwn erbyn diwedd mis Gorffennaf oherwydd mae'n rhaid i SD adrodd i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Awst 2020 er mwyn sicrhau y gellir cael cymeradwyaeth y Gweinidog dros yr haf.**

Gofynnodd MP a oedd yn syniad da cynnig tymor newydd i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gan y byddai hynny'n golygu bod y ddau aelod yn gorffen yr un pryd, yn dilyn eu tymhorau estynedig. Eglurodd MR nad yw rôl yr Is-gadeirydd yn rôl a gydnabyddir gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus ac o'r herwydd nid oes ganddynt broblem gyda'r mater hwn. Gofynnodd SD a oedd y bwrdd yn parhau i fod mewn sefyllfa i gyfethol aelodau ond cadarnhaodd MR nad yw hyn yn bosibl mwyach. Amlygodd JG bwysigrwydd cael cydbwysedd rhwng sgiliau a nodweddion a chytunodd MR y bydd cydraddoldeb cadarnhaol yn cael ei ystyried gydol y broses recriwtio. Mae CW yn awyddus iawn i barhau i gefnogi'r Academi Arweinyddiaeth ond yn cydnabod bod yna sawl pennaeth arall a allai gymryd ei lle a bod yna ffyrdd eraill hefyd y gallai ymgysylltu â'r Academi Arweinyddiaeth, o bosibl fel cydymaith neu fel aelod o'r grŵp rhanddeiliaid. Cytunodd MR ond nododd nad pennaeth arall o reidrwydd a fyddai'n cymryd lle CW os oedd yn rhoi'r gorau i'r swydd. Mae CW yn teimlo bod profiad yn bwysig yn y bwrdd ond cadarnhaodd ei bod yn hapus i roi'r gorau i'r rôl gan ei bod yn deall nad yw ei set sgiliau mor hanfodol i'r bwrdd o gymharu ag aelodau eraill o'r bwrdd. Mae PM yn teimlo y byddai trafodaeth fel hyn wedi bod yn ddefnyddiol rai misoedd yn ôl er mwyn rhoi amser i'r bwrdd ystyried. Cytunodd MR gan nodi nad oedd yn llawn werthfawrogi'r holl amser ac ymdrech y byddai angen i gwblhau'r broses hon pan drafodwyd y mater gyntaf.

Mynegodd SD ei diolch i MR unwaith eto gan fod ei gwaith caled a'i chefnogaeth wedi bod yn amhrisiadwy gydol y broses.

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 17 Mehefin 2020.

Roedd yr ail archwiliad mewnol ar reoli risg wedi'i gwblhau a chyflwynwyd yr adroddiad yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Roedd yr adroddiad yn cynnwys tri argymhelliad:

- bod yr Academi arweinyddiaeth yn creu fframwaith sicrhau'r bwrdd

- bod y termau 'trin' a 'goddef' yn cael eu diffinio o fewn yr allwedd ar y gofrestr risgiau
- bod amserlenni realistig yn cael eu pennu ar gyfer pob eitem ar y gofrestr risgiau.

Derbyniwyd yr argymhellion a chytunodd y pwyllgor bod hwn yn adroddiad arall cryno a defnyddiol. Mae'r pwyllgor yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr archwilwyr mewnol o safon uchel ac y bydd yn parhau i fod yn fuddiol iawn.

Ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, mabwysiadodd y tîm gweithredol ddull newydd ar gyfer y gofrestr risgiau. Yn hytrach na chael y pwyllgor i asesu pob eitem ar y gofrestr risgiau yn ystod y cyfarfod, aeth y tîm gweithredol ati i gyflawni'r ymarfer hwn cyn y cyfarfod a chyflwyno adroddiad i'r pwyllgor. Trafodwyd yr adroddiad yn fanwl a derbyniodd y pwyllgor argymhellion y tîm gweithredol. Y prif newid i'r gofrestr risgiau oedd y gostyngiad yn y risg cyfathrebu oherwydd y camau y mae'r tîm wedi eu cymryd ers y cyfarfod diwethaf. Ychwanegwyd tri o risgiau newydd at y gofrestr dan gylch gwaith CL. Roedd y pwyllgor yn teimlo bod y dull hwn ar gyfer y gofrestr risgiau yn newid cadarnhaol i'r broses ac y byddai'n annog y dull hwn ar gyfer pob cyfarfod yn y dyfodol.

Trafodwyd y broses o greu fframwaith sicrhau'r bwrdd gydag un o gynrychiolwyr yr archwilwyr mewnol. Bydd y fframwaith yn ystyried yr holl risgiau sydd ar y gofrestr risgiau ac yn dyrannu tair llinell amddiffyn ar gyfer pob un. Bydd y gweithgarwch hwn yn cael ei gyflawni gan y tîm gweithredol a bydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor i'w drafod a'i gymeradwyo. Codwyd cwestiynau ynghylch llwyth gwaith y tîm a chytunwyd, er bod yr Academi Arweinyddiaeth yn fach o ran nifer ei aelodau staff, mae'n fawr o ran ei gyrhaeddiad a'i ddylanwad ac o'r herwydd roedd y pwyllgor yn teimlo y bydd hwn yn ymarfer defnyddiol iawn.

Gofynnodd SD a oedd angen cyflwyno'r gofrestr ar gyfer rhoddion a lletygarwch. Cadarnhaodd KP y cyflwynwyd y gofrestr ar gyfer rhoddion a lletygarwch i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ac y bydd y pwyllgor yn adrodd unrhyw gofnodion i'r bwrdd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gofnodion ac felly nid oes adroddiad i'r bwrdd ar yr achlysur hwn.

Ymddiheurodd PM nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod o'r pwyllgor ond mae'n cytuno â phopeth sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad MJ. Mae PM yn credu y bydd y fframwaith sicrhau'r bwrdd yn adnodd defnyddiol iawn ac yn credu, unwaith y bydd wedi'i greu, ychydig iawn o waith fydd angen i'w gynnal. Cytunodd MJ fod y dull newydd ar gyfer y gofrestr risgiau a'r fframwaith sicrhau'r bwrdd yn rhannu cyfrifoldebau'r tîm gweithredol a'r bwrdd yn briodol, a bydd yn sicrhau mai dim ond ar feysydd strategol y bydd y bwrdd yn adrodd arno, yn hytrach na phwyntiau gweithredol.

Dywedodd RJ fod cofnodion o gyfarfod y pwyllgor o ansawdd uchel ac roedd yn cytuno bod y dull newydd ar gyfer y gofrestr risgiau yn effeithiol iawn.

4. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol

Cyflwynodd JG yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol ar 29 Mehefin 2020.

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020 i'r pwyllgor. Gofynnodd y pwyllgor am y diwygiadau canlynol:

- dylid cynnwys nodyn eglurhaol yn egluro'r gwaged ymddangosiadol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dylai'r nodyn egluro nad yw'r gwaged yn 'elw' nac yn 'arian yn y banc' ond yn hytrach mae'n rhagdaliad a wnaethpwyd i gymdeithion am wasanaethau a gwblheir yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- ychwanegu paragraff at *Adroddiad y Cyfarwyddwyr* yn egluro bod yr Academi Arweinyddiaeth yn sefydliad newydd ac roedd y flwyddyn ariannol flaenorol dim ond yn cynnwys pedwar mis o fasnachu. O'r herwydd, ni ddylid cymharu'r ddau gyfnod ar sail gyfatebol.
- diwygio'r adran sy'n sôn am *ddigwyddiadau sydd ddim yn cael eu haddasu ar ôl y cyfnod ariannol* i ddweud bod y cyfyngiadau symud wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru, nid Llywodraeth y DU

Mae KP wedi rhoi cyfarwyddyd i'r cyfrifwyr i wneud y newidiadau hyn ac mae'r **pwyllgor yn argymhell bod y cyfrifon drafft yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd gan ychwanegu'r nodiadau a bennwyd. Cymeradwyodd y bwrdd y cofnodion ar y sail hon.**

Ategodd MR yr angen i egluro'r gwaged ymddangosiadol yn enwedig yn ystod yr hinsawdd sydd ohoni pan ofynnir i gyrff llywodraethu wneud arbedion lle bynnag y bo'n bosibl.

Cyflwynodd TE y wybodaeth ddiweddaraf am staffio yn ystod y cyfarfod a bydd hyn yn cael sylw gan TE yn adroddiad y Prif Weithredwr yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Trafodwyd mater yn ymwneud ag Adnoddau Dynol a oedd yn fwy sensitif o ran natur a bydd yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd gan TE.

NODYN CYFRINACHOL

Adolygodd y pwyllgor cyfres ddrafft o Reoliadau Ariannol a Chynllun Awdurdod a Ddirprwyir a oedd wedi'i baratoi gan y tîm gweithredol yn dilyn cyngor gan yr archwilwyr mewnol. **Cynigiodd y pwyllgor bod y bwrdd yn cytuno i dderbyn y ddogfen hon ac awdurdodi ei chyhoeddi. Cytunodd y bwrdd i wneud hyn.**

Trafododd y pwyllgor fesurau perfformiad y bwrdd. Aeth JG ati i lunio papur yn dilyn trafodaethau â MP sydd wedi'i rannu â'r bwrdd. Mae JG yn awyddus i sicrhau bod yr Academi Arweinyddiaeth yn esiempl o lywodraethu da ac o'r herwydd lluniwyd cyfres o fesurau er mwyn sicrhau bod y bwrdd yn perfformio'n effeithiol. Diolchodd SD i JG am ei waith ac mae'n credu bod y papur yn gychwyn ardderchog o ran mesur perfformiad y bwrdd. Cytunodd RJ ei fod yn ddarn o waith gwych a bod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn briodol. Fodd bynnag, hoffai RJ weld y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad. Awgrymodd SD y cynhelir trafodaeth bellach mewn cyfarfod yn y dyfodol a **chytunwyd y byddai JG yn cymryd sylwadau gan y bwrdd a chyflwyno'r**

wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi. Tynnodd MR sylw at bwysigrwydd mesurau perfformiad y bwrdd, o gofio bod y bwrdd ar fin cael ei adnewyddu.

Diolchodd JG i'r pwyllgor am gyfarfod defnyddiol a diolchodd SD i JG ac MJ am eu hadroddiadau cynhwysfawr.

5. Adroddiad y Prif Weithredwr yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Llesiant

Cychwynnodd TE drwy ddiolch i'r bwrdd am ei gefnogaeth barhaus a chyflwynodd yr eitemau canlynol drwy ei hadroddiad:

- Mae TE yn awyddus i newid fformat yr adroddiad hwn wrth symud ymlaen. Mae'n bwysig bod yr adroddiad yn mesur cynnydd yn erbyn y cynllun corfforaethol ond nid yw'r cynllun presennol wedi'i ysgrifennu mewn ffordd sy'n hwyluso hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais bod yr adroddiadau cynnydd y maen nhw'n eu cael gan yr Academi Arweinyddiaeth yn rhoi mwy o ffocws ar werthuso ac effaith. Mae TE yn awyddus i ddod o hyd i ddull o adrodd a fydd yn bodloni pob parti er mwyn lleihau gwaith gweinyddol diangen ac y bydd yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cynllun corfforaethol newydd.
- Mae Tracey Burke (Cyfarwyddwr Cyffredinol – Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus) wedi ysgrifennu at yr Academi Arweinyddiaeth i ddynodi'n ffurfiol TE yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- Derbyniwyd 7 cais ar gyfer y swydd Rheolwr Cyfathrebu a chafodd 4 ymgeisydd gyfweiliad ar 30 Mehefin. Penodwyd unigolyn a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cychwyn ddechrau mis Awst.
- Mae 2 o'r 3 secondiad wedi'u penodi (Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrwydd Ansawdd – ysgolion a Llesiant ac Arloesi) a byddant yn cychwyn ym mis Medi
- Mae blogiau a fideos gan gymdeithion, rhanddeiliaid ac aelodau o'r bwrdd y parhau i gael croeso brwd ar y cyfryngau cymdeithasol a thu hwnt ac mae gan TE flog yng nghylchlythyr Dysg. Mae'r bwletin wythnosol yn parhau i gael ei gyflwyno i randdeiliaid mewnol.
- Mae adolygiad mewnol yr Academi Arweinyddiaeth wedi'i gwblhau ac mae'r rheolwyr wedi cynnal ymarfer cynllunio yn dilyn COVID-19. Bydd y ddwy eitem yn cael eu cyflwyno'n fanylach yn ddiweddarach yn y cyfarfod.
- Cynhelir cyfarfodydd rheoli yn fisol gan y tîm gweithredol er mwyn ystyried camau gweithredu cyn y cyfarfodydd pwyllgor a bwrdd a'r strategaeth ymadael ar gyfer COVID-19
- Bu TE mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid gydag unigolion o Gyngor y Gweithlu Addysg, Cyfarwyddwr Addysg Ynys Môn ac Adran Ieuenctid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac mae rôl yr Academi Arweinyddiaeth yn parhau yn y cynllun Parhad Dysgu. Mae TE yn cymryd rhan hefyd mewn cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth gyda Mark Ford Llywodraeth Cymru ym maes 'Addysgeg Arweiniol'

- Mae cymdeithion yn parhau i gefnogi yn eu rolau arweiniol a fydd yn cael eu hymestyn tan ddiwedd mis Rhagfyr 2020 er mwyn cyd-fynd â phenodiad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Arweinyddiaeth a Sicrwydd Ansawdd.
- Mae Cohort 1 wedi bod yn adolygu eu Comisiwn a bydd yn rhannu adroddiad terfynol yn ystod tymor yr hydref. Fe wnaeth Cohort 2 rannu papur o agweddau gyda Kevin Palmer a dderbyniwyd mewn egwyddor. Bydd y camau nesaf yn cynnwys ystyried argymhellion yn eu hadroddiad cychwynnol. Mae Cohort 3 yn parhau gyda'u proses sefydlu ar-lein ac mae'r ail brofiad dysgu'n cael ei gynllunio.
- Mae Cohort 1 a 2 wrthi'n gwneud rhaglen hyfforddi ar-lein er mwyn eu galluogi i ddarparu hyfforddiant arweinyddiaeth i gohort 3.
- Mae'r holl Gymdeithion yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ar-lein lefel uchel drwy'r gyfres o weminarau #datgloiarweinyddiaeth gyda'r Athro Stephen Heppell, Syr Tim Brighouse a John West Burnham.
- Mae'r maes gwaith arloesi yn cael ei ddatblygu gan y Cydymaith sy'n arwain yn y maes hwn gyda chefnogaeth yr Athro Andy Penaluna
- Mae'r prosiect *Dysgu Proffesiynol Arweiniol* wedi'i oedi gan nad yw OB3 yn gallu ymweld ag ysgolion er mwyn casglu enghreifftiau o arferion da. Bydd y prosiect yn ailgychwyn yn ystod tymor yr Hydref.
- Mae'r prosiectau *Ymholi, Arloesi, Archwilio!* wedi'u hoedi yn ogystal. Mae partneriaethau rhwng ysgolion grant a phrifysgolion wedi'u sefydlu ac mae rhywfaint o waith cynllunio wedi'i wneud. Bydd prosiectau'n ailgychwyn ar y cyfle cyntaf a bydd amserlenni ar gyfer cwblhau, a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer Mawrth 2021, yn cael eu hymestyn yn ôl yr angen. Bydd oedi tebyg o ran cyhoeddi canllawiau *Leading Enquiry* a gynlluniwyd ar gyfer Ebrill 2020 yn y lle cyntaf.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r polisi rhyngwladol a'r deunydd darllen academaidd sydd ar gael ar arweinyddiaeth systemau, gydag argymhellion ar gyfer symud polisïau ymlaen yn y maes hwn yng Nghymru (yn cynnwys model Cymdeithion yr Academi Arweinyddiaeth), gan yr Athro Alma Harris. Mae'r adroddiad terfynol wedi'i dderbyn ac mae cynllun yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod y gwaith yn llywio polisi a phrosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae adolygiad tebyg o'r polisi rhyngwladol a'r deunydd darllen academaidd ar arweinyddiaeth ganol wedi'i gomisiynu gan Brifysgol Glasgow a bydd yn cael ei arwain gan Christine Forde. Bydd yr adroddiad ar gael yn yr Hydref.
- Mae gwaith ar Gynllunio Strategol y Gweithlu wedi'i oedi. Nid yw'r partneriaethau a ddatblygwyd gydag awdurdodau lleol Caerdydd a Powys er mwyn archwilio'n fanwl rai o'r heriau cadw staff a ddatgelwyd drwy'r broses o ddadansoddi data a gomisiynwyd i Gyngor y Gweithlu Addysg wedi symud ymlaen. Fodd bynnag mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth Llesiant yr Academi Arweinyddiaeth yn cynhyrchu data perthnasol, gwerthfawr ac rydym yn ystyried y ffyrdd gorau o'i ddefnyddio er mwyn datblygu ein gwaith yn y maes hwn.

- Ymatebodd 1000 a mwy o bobl i'r arolwg llesiant. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i gomisiynu sefydliadau proffesiynol i gynnal y gwaith o ddadansoddi data gan fod y set data yn fwy na'r disgwyl. Bydd angen cyflwyno'r arolwg i arweinwyr mewn lleoliadau addysgol eraill er mwyn casglu eu safbwyntiau. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol gyda'r tîm llesiant er mwyn nodi'r camau nesaf yn y broses.

Gofynnodd DP am rywfaint yn rhagor o wybodaeth am yr ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer rôl y Rheolwr Cyfathrebu. Hysbysodd TE y bwrdd fod yr ymgeisydd yn gweithio mewn rôl gyfathrebu ar hyn o bryd a'i bod wedi dangos dull strategol o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ei chyfweliad. Roedd yr ymgeisydd yn wybodus iawn mewn strategaethau marchnata digidol a chytunodd y panel yn unfrydol mai hi oedd yr ymgeisydd gorau ar gyfer y rôl.

Gofynnodd JG i TE beth yn ei barn hi oedd yr her fwyaf o arwain drwy gyfnod COVID-19. Cytunodd TE fod COVID-19 wedi arwain at lawer o heriau ond ei fod wedi cynnig nifer o gyfleoedd hefyd. Mae'r ffaith nad oedd modd ymgysylltu â phobl wyneb yn wyneb a meithrin cysylltiadau â'r cohort newydd o gymdeithion yn y dull arferol wedi bod yn anodd. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi canfod dull newydd mwy effeithiol o reoli nifer o brosesau a bydd y dulliau hyn yn parhau i gael eu defnyddio unwaith y mae COVID-19 wedi dod i ben.

Gofynnodd CW sut gall yr Academi Arweinyddiaeth gasglu rhywfaint o'r arferion da sydd wedi'u nodi wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a gofynnodd MJ a oedd unrhyw hyfforddiant ffurfiol wedi'i gynnig i arweinwyr wrth iddynt baratoi i gyflwyno a gweithredu'r cwricwlwm newydd. Tynnodd TE sylw at y ffaith nad yw'r Academi Arweinyddiaeth yn darparu datblygiad ac mai rôl y consortia rhanbarthol yw darparu cyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth. Mae'n rhaid i'r Academi Arweinyddiaeth fod yn ofalus i beidio â 'sathru ar draed unrhyw un.'

Mae'r adroddiad a nifer yr ymatebwyr i'r arolwg llesiant wedi cael cryn argraff ar RJ ac mae'n credu y bydd y wybodaeth a gesglir o'r data o fudd gwirioneddol i arweinwyr. Mae yna ffyrdd newydd o weithio oherwydd COVID-19 ond tynnodd RJ sylw at y ffaith mai pwrpas yr Academi Arweinyddiaeth bob amser oedd bod yn sefydliad 'ar-lein' gyda nifer fach o aelodau staff a phencadlys bach. Erbyn hyn mae'r Academi Arweinyddiaeth yn llawer mwy hygyrch i lawer yn ystod COVID-19 oherwydd cynnydd mewn cyfarfodydd ar-lein a gostyngiad mewn teithio. Cytunodd MR â RJ; gwelwyd llawer o ymddiswyddiadau yn y sector ers i'r pandemig gychwyn wrth i arweinwyr geisio canfod ffordd newydd o arwain a chanfod trefn newydd. Bydd hyfforddi a mentora o bwys mawr wrth symud ymlaen ac mae MR wedi'i galonogi gan y gwaith y mae'r Academi Arweinyddiaeth yn ei wneud yn y maes hwn ond pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau ansawdd drwyddo draw.

Tynnodd CW sylw at y ffaith bod yna becyn datblygu arweinyddiaeth wedi ei gynnig yn flaenorol gan y rhanbarthau mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd ond ers COVID-19 mae arweinwyr wedi gorfod mabwysiadu arddull o arweinyddiaeth argyfwng sydd wedi eu gwneud yn llawer mwy gweithredol. Mae'n rhaid i'r Academi Arweinyddiaeth atgyfnerthu'r angen am arweinyddiaeth llawn gweledigaeth.

Mae arweinyddiaeth addysgol yn wahanol iawn yn Lloegr ac mae PM yn credu bod ymateb y Gweinidog Addysg a Llywodraeth Cymru wedi bod yn dda gydol y broses. Mae'n rhaid i arweinwyr gydnabod bod yna lawer o newidiadau parhaol; ni fydd y sefyllfa byth yn dychwelyd i'r hyn yr oedd cyn y pandemig. Erbyn hyn hefyd, mae yna unigolion sydd bellach mewn rolau arweinyddiaeth nad oedd ganddynt yn flaenorol. Mae'n rhaid i'r Academi Arweinyddiaeth ystyried sut y gall gefnogi'r bobl hyn. Mae'n hanfodol cefnogi llywodraethwyr drwy'r argyfwng hefyd gan eu bod yn gyfrifol am benodi arweinwyr ysgolion ac yn aml nid oes ganddynt yr un lefel o gefnogaeth. Mae TE yn gwerthfawrogi bod hwn yn bwynt dilys ac mae'n awyddus i weithio'n agosach â llywodraethwyr. Mae gan TE gyfarfod â Jayne o Lywodraethwyr Cymru yn fuan er mwyn trafod y mater ymhellach. **Cynigiodd MP helpu TE gyda'r strategaeth ar gyfer cefnogi llywodraethwyr.**

Diolchodd SD i TE am ei hadroddiad cynhwysfawr ac am waith deinamig, creadigol ac arloesol yr Academi Arweinyddiaeth yn cefnogi'r system.

6. Adolygiad Mewnol

Ymunodd CL â'r cyfarfod.

Mae CL wedi cael y dasg o gynnal adolygiad mewnol o gynnydd yr Academi Arweinyddiaeth yn erbyn ei gylch gwaith ac i nodi pwyntiau gweithredu wrth iddo nesáu at ddiwedd ei gyfnod cychwynnol o 3 blynedd. Cyflwynodd CL prif bwyntiau'r adolygiad i'r bwrdd.

- Nid yw'r Cynllun Corfforaethol cyfredol yn adlewyrchu'n glir flaenoriaethau a ffrydiau gwaith yr Academi Arweinyddiaeth. Felly, mae'r adolygiad wedi canolbwyntio ar y disgwyliadau a nodwyd yn y llythyr cylch gwaith, yn hytrach nag ar y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol.
- Mae yna anghysondebau yn y defnydd o dermau sy'n cyfeirio at feysydd blaenoriaeth strategol allweddol yr Academi Arweinyddiaeth ar draws nifer o ddogfennau. Erbyn hyn mae'r meysydd blaenoriaeth hyn wedi cael eu henwi fel a ganlyn: *Corfforaethol, Datblygu Arweinyddiaeth ac Arwain Agweddau*
- Mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi cael trafferth ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid ar draws y sector addysg cyfan hyd yma. Mae rôl secondai yn canolbwyntio ar ieuenctid ac ôl-16 wedi'i hysbysebu er mwyn mynd i'r afael â hyn
- Dylid ailgynllunio fformat y grŵp rhanddeiliaid er mwyn gwneud gwell defnydd o'r swyddogaeth
- Nid yw'r llwybr arloesi wedi bod mor effeithiol â'r hyn a obeithiwyd yn wreiddiol a gwelwyd lefelau ymgysylltu isel iawn o'r sector. Mae maes arloesi'r gwaith wedi'i ailgynllunio ac mae prosiectau newydd ar y gweill
- Byddai'n briodol comisiynu gwerthusiad allanol, annibynnol o'r Model Cymdeithion a'r Broses Ardystio

Gofynnodd MR a fyddai'n bosibl cael sgwrs ar wahân â CL am anghysondeb y derminoleg, gan fod y cylch gwaith newydd wrthi'n cael ei baratoi. Hoffai MR drafod hefyd y posibilrwydd o'r Academi Arweinyddiaeth yn gweithredu fel darparwr a chanlyniadau hynny. Hoffai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad

allanol o'r Academi Arweinyddiaeth ar gyfer Gweinidog Addysg newydd ym mis Mai 2021, fodd bynnag bydd dogfen yr adolygiad mewnol yn ddefnyddiol iawn hefyd.

Aeth RJ ati i longyfarch CL ar adolygiad craff sydd wedi'i ysgrifennu'n dda iawn ac sy'n codi materion mewn dull cryno a threfnus. Mae'n bwysig parhau i drafod y pwyntiau a godwyd a sicrhau bod yna eglurder mewn rolau a chyfrifoldebau. Cytunodd DP gan ddweud yr hoffai wybod mwy am yr effaith y mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi ei gael yn y system addysg. Eglurodd CL nad oedd ymgysylltu systematig ag arweinwyr addysgol o ran yr adolygiad, fodd bynnag mae'r rhai sydd yn ymgysylltu yn gadarnhaol iawn. Gwelwyd lefel ymgysylltu uchel ar gyfer yr arolwg llesiant ac mae yna lawer iawn o ddiddordeb yn y maes gwaith hwn. Mae'r tîm yn ymwybodol o'r angen i wneud rhywbeth gweledol a gwerthfawr gyda'r wybodaeth a gesglir.

Diolchodd JG i CL am ei adroddiad a hoffai weld mwy o ffocws ar lywodraethwyr yn y pwyntiau gweithredu. Hoffai JG gael gwybodaeth am y strategaeth ar gyfer ôl-16 a lleoliadau ar wahân i ysgolion a gofynnodd hefyd beth mae'r Academi Arweinyddiaeth yn ei wneud er mwyn nodi ac ennyn darpar arweinwyr. Mae CL yn gweithio ar system arweinyddiaeth gyda'r Athro Alma Harris ac mae'r gwaith sydd wedi ei gwblhau hyd yma yn dweud wrthym fod angen arweinyddiaeth effeithiol mewn systemau ar bob lefel. Mae'n rhaid i'r Academi Arweinyddiaeth ystyried y ffordd y mae swyddogaethau fel ardystio a'r model cymdeithion yn ymddangos i'r proffesiwn ehangach. Mae gwaith ar gadw a recriwtio staff yn cael ei wneud er mwyn dysgu pam mae arweinwyr ysgol ifanc yn gadael y proffesiwn. Tynnodd TE sylw at y ffaith y bydd y seondiad a hysbysebwyd ar gyfer ôl-16 ac ieuencid yn sicrhau bod gan yr Academi Arweinyddiaeth bobl ar waith er mwyn datblygu'r meysydd gwaith hyn. Bydd popeth sydd wedi'i drafod yn rhan o waith cynllunio'r model rhesymeg a fydd yn cyfrannu at y llythyr cylch gwaith newydd.

Tynnodd PM sylw at y newidiadau sy'n cael eu gwneud i addysg ôl-16 yng Nghymru a gofynnodd a oes angen cadarnhau rôl yr Academi Arweinyddiaeth gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro â sefydliadau eraill. Gofynnodd MJ faint o gydweithio a fydd yn digwydd rhwng yr Academi Arweinyddiaeth a Llywodraeth Cymru ar y cylch gwaith newydd a hysbysodd SD y bwrdd bod Kevin Palmer wedi cytuno y bydd y cylch gwaith newydd yn cael ei lunio ar y cyd. Tynnodd MR sylw at y ffaith y lluniwyd y cylch gwaith cyfredol gyda Huw Foster Evans ond mae'n rhaid ystyried gofynion a blaenoriaethau'r llywodraeth. Gofynnodd JG pryd fydd y cylch gwaith newydd yn debygol o fod ar gael. Cadarnhaodd MR y dylai'r cylch gwaith newydd gael ei gyflwyno ar 1 Ebrill ond oherwydd yr etholiad sydd ar y gweill bydd y cylch gwaith cyfredol yn debygol o gael ei ymestyn tan fis Mai 2021 gan ei bod yn bwysig ystyried blaenoriaethau'r llywodraeth newydd cyn cyflwyno'r cylch gwaith.

Gofynnodd RJ a fyddai'n briodol blaenoriaethu camau gweithredu'r adolygiad ac ychwanegu amserlenni yn erbyn pob cam gweithredu. Cytunodd TE ac eglurodd y bydd y camau gweithredu'n cael eu gwneud yn gynllun gweithredu yn cynnwys amserlenni. Diolchodd TE i CL am ei adroddiad a diolchodd i aelodau'r bwrdd am eu

sylwadau. Ystyriwyd yr adolygiad hwn fel y cam cyntaf yn y broses o gynllunio'r cynllun corfforaethol newydd a bydd yn hanfodol ymgynghori â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau hirhoedledd y cynllun corfforaethol nesaf.

Cyflwynodd CL dogfen y cynllun i'r bwrdd a soniodd am y dull gorau ar gyfer pob swyddogaeth ym mhob un o'r pedair sefyllfa.

Mae MJ yn credu bod hwn wedi bod yn ymarfer da i'w gwblhau gan fod yr Academi Arweinyddiaeth wedi penderfynu sut bydd yn gweithredu mewn nifer o sefyllfaoedd posibl ac mae wedi llongyfarch y tîm. Nododd MP nad oedd unrhyw un o'r sefyllfaoedd yn cyfeirio at swyddfa barhaol a gofynnodd a oedd penderfyniad wedi'i wneud i beidio â chael swyddfa yn y dyfodol. Mae TE eisoes wedi trafod â'r bwrdd y ffaith bod swyddogaeth weinyddol wedi gostwng yn sylweddol. Mae TE yn deall y bydd yn bwysig cyfarfod wyneb yn wyneb ar brydiau ond nid yw hynny'n golygu bod yr Academi Arweinyddiaeth angen swyddfa barhaol. Mae TE am iddynt ymchwilio i'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd a pharhau i gwestiynu dulliau gweithio. Bydd prydles y swyddfa yn Abertawe yn dod i ben ym mis Medi 2021 felly byddai'r Academi Arweinyddiaeth wedi gorfod symud swyddfeydd yr adeg honno beth bynnag, waeth beth fo'r sefyllfa gyfredol.

Gadawodd CL, MR, CW a RJ y cyfarfod am 1pm.

7. Adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd

Gan fod rhai aelodau'r bwrdd wedi gorfod gadael y cyfarfod, penderfynwyd ychwanegu adolygiad o'r Cylch Gorchwyl at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Medi. Gofynnodd SD am sylwadau gan aelodau'r bwrdd ar y ddogfen cyn y cyfarfod nesaf.

8. Cwestiynau'r Archwilydd Allanol i'w Hystyried

Hysbysodd KP y bwrdd ei bod angen anfon yr ymatebion i'r cwestiynau at Archwilio Cymru erbyn Dydd Gwener 17 Gorffennaf, felly cytunwyd y byddai'r bwrdd yn eu trafod y tu allan i'r pwyllgor ac y byddai JG yn anfon ymateb at KP cyn 17 Gorffennaf.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau ar gyfer yr agenda a chloi'r cyfarfod

Diolchodd SD i bawb am eu presenoldeb a dymunodd yn dda i bawb ar gyfer seibiant yr haf.

Daeth SD â'r cyfarfod i ben am 13:15

Log Camau Gweithredu

Rhif		Perchennog	Terfyn amser	Statws
83	Gwirio'r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer aelodau bwrdd yn y dyfodol	SD	Medi 2019	Yn parhau
84	Adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl	SD	Gorffennaf 2020	

105	Agenda - Tegwen Ellis i fynychu cyfarfod bwrdd yn y dyfodol i gyflwyno ei gwaith Doethuriaeth hyd yn hyn	KP	Medi 2020	Gohiriwyd
115	Creu ail gofrestr risgiau ar gyfer risgiau gweithredol	Pwyllgor A a SR	Ionawr 2020	Gohiriwyd
134	Cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru i fynychu'r cyfarfod nesaf i drafod y cwricwlwm newydd.	TW/CW	Medi 2020	Gohiriwyd
140	Gwirio a fydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar y Weledigaeth a'r Gwerthoedd diwygiedig	TE	Medi 2020	Cwblhawyd
143	Ystyried strategaeth ar gyfer ymgysylltu â Gweinidogion cyn yr etholiad	TE	Medi 2020	
144	Archwilio'r posibilrwydd o gynnal digwyddiad yn y Senedd i lansio'r strategaeth llesiant	TE/KP	Medi 2020	
145	Diweddariad i Lywodraeth Cymru am broses adnewyddu'r Bwrdd	SD	1 Awst 2020	
146	Cymryd sylwadau am fesurau Perfformiad y Bwrdd ac adrodd yn ôl i'r bwrdd	JG	Tachwedd 2020	
147	Trafod strategaeth ar gyfer ymgysylltu â llywodraethwyr	MP/TE	Medi 2020	Cwblhawyd
148	Anfon sylwadau ar y cylch gwaith i'r cadeirydd cyn y cyfarfod nesaf	Pawb	Medi 2020	